



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Mehefin 2014
Rhifyn 208

www.henaduriaetharfon.org



Oedfaon y Sul

1 Meh - Bore: **Gweinidog (Cymun)**
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**

8 Meh - Bore a Hwyr: **Y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon**

15 Meh - Bore a Hwyr: **Gweinidog -**
Oedfa deulu yn y bore

22 Meh - Bore a Hwyr: **Y Parchg Brian Huw Jones, Prestatyn**

29 Meh - Bore a Hwyr: **Y Parchg Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog**

3 Gorff - Bore: **Gweinidog (Cymun)**
Hwyr (4pm) : **Uno yn Salem**

Digwyddiadau mis Mehefin

Nos Iau 5 Mehefin (7pm) - **Hyfforddiant y Panel Diogelwch Cyd-enwadol ym**
Merea Newydd, Bangor

Dydd Sadwrn 14 Mehefin: **Trip yr Ysgol Sul i Barc Safari Knowsley**
(Manylion gan Mrs Ann Llywelyn Williams (674849))

Nos Wener 20 Mehefin (6-8pm)

Noson Goffi yn Seilo

Byrddau Gwerthu Amrywiol

Mynediad £1. Yr elw at yr Achos a Chymdeithas y Clefyd Alzheimer

Taro Mewn yn Salem bob bore dydd Mawrth rhwng 10 ac 11am

Y Gell Weddi yn Seilo bob dydd Iau am 10.30am

Am Eiliad

Sawl gwaith y cyfeiriwn at y tywydd mewn sgwrs? Beth bynnag fo'r tywydd, boed yn storm neu'n hindda, byddwn yn sicr o'i grybwyll sawl gwaith yn ystod y dydd. Y patrwm arferol yw holi'n gyntaf am gyflwr iechyd person ac yna droi at y tywydd a datgan ei bod hi un ai'n boeth neu'n oer, yn wlyb neu'n wyntog. Pam tybed? Wedi'r cyfan datgan ffaith sy'n wybyddus i bawb a wneir gan amlaf. Ai o ddiffyg dim byd gwell i'w ddweud y cyfeiriwn ni hyd at syrffed at y tywydd? Beth bynnag am hynny, mae un peth yn sicr, - heb y tywydd i gyfeirio ato, byddai na lai o sgwrsio ar strydoedd Caernarfon a phob tref a phentref arall.

Gwranddo yr oeddwn i ar raglen newyddion ar y teledu'r dydd o'r blaen, a'r drafodaeth yn cyfeirio at y datblygiad sydd wedi digwydd ar hyd y blynyddoedd yn y gallu i ragweld y tywydd. Erbyn heddiw gellir clicio i mewn i'r cyfrifiadur a chanfod y rhagolygon tywydd am yr wythnos sydd i ddod. A chan amlaf, er nid bob tro, maen nhw'n weddol agos ati. Doedd hi ddim felly ers talwm a phobl yn dibynnu llawer ar goelion gwlad i ddarogan y tywydd, a gwn am rywrai, hyd heddiw, sydd yn gallu rhagweld y tywydd o wybod cyfeiriad y gwynt pan fo'r lleud yn newydd.

O agor y papur dyddiol, nid yn unig y cawn ragolygon y tywydd ond yn ogystal cawn broffwydoliaethau ar gyfer y dyfodol. Hyn yn dibynnu llawer iawn ar y sêr a'u safle mewn perthynas â'r lleud, - meddan nhw! Gwn am bobl sy'n fodlon teithio bellter mawr a gwario arian mawr i gael

sesiwn yng nghwmni gŵr neu wraig sy'n honni medru rhagweld y dyfodol, boed trwy ddarllen y cardiau tarot neu drwy sylwi'n fanwl ar gledr y llaw. Yng nghyfnod fy mhentyndod byddai nifer o bobl yn teithio i Sir Fôn at wraig oedd yn ennill ei bywoliaeth yn darllen y cardiau!

Ond beth sydd gan y Beibl i'w ddweud am y fath arferion? Yn Llyfr yr Actau cawn yr Apostol Paul yn llawdrwm iawn ar ofergoelion o'r fath, a hynny am mai ein hannog a wna Iesu Grist i geisio teyrnas Dduw mewn gweddi a thrwy arweiniad yr Ysbryd Glân. Yr hyn a olygir yw ymddiriedaeth lwyr yn Nuw, gan gofio ar yr un pryd ei fod wedi rhoi ewyllys rydd i bawb a'r dewis i dderbyn neu wrthod ei arweiniad dwyfol. Ein cyfrifoldeb gyda'n gilydd yw ceisio dirnad yr ewyllys honno yn ein dyddiau ni. A hithau'n Bentecost onid da fyddai i ni gofio hyn, a chofio rhywbeth arall hefyd, sef geiriau syml Iesu Grist yn y Bregeth ar y Mynydd:

"...ceisiwch yn gyntaf Deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chi. Peidiwch felly â phryderu am yfory, oherwydd bydd gan yfory ei bryder ei hun. Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun." (Mathew7: 33 - 34)

Gwenda Richards

Coffâd

Cofiwch yn annwyl am Mrs Gwyneth Jones, Cerrig yr Afon (Lôn Ddewi gynt), priod y diweddar Emyr Jones, a

fu'n flaenor gweithgar yn Seilo. Gwraig dawel a phreifat oedd hi, yn fodlon oddi mewn i'w milltir sgwâr. Roedd ganddi feddwl y byd o'i theulu a chydymdeimlwn yn ddiffuant â hwy oll yn eu profedigaeth o golli mam gariadus a nain a hen nain hoff.

Gwaeledd

Bu sawl aelod o'r eglwys yn wael yn ystod y mis ac anfonwn ein dymuniadau da am wellhâd buan atynt oll. Mae **Mr Wil Lloyd Davies**, Llanddwyn, 10 Ffordd Menai yn parhau yn Ysbyty Treforys ac yn disgwyl llawdriniaeth yn y dyfodol agos. Da yw deall bod **Mr David Elwyn Williams**, 7 Ala Las, Ffordd Bangor, yn gwella yn dilyn ei driniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Mae **Mrs Mair Parry-Owen**, 3 Llys Gwyn (Stryd Dinorwig gynt) yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd ac wedi derbyn llawdriniaeth yn dilyn codwm yn Ysbyty Cefni. Roedd yn ofid clywed bod **Miss Gwyneth Owen**, Rhiw, Lôn Ddewi, mewn ysbyty yn Ffrainc, hithau hefyd wedi cael codwm. Mae **Mr Emyr Parry**, Tre'r Ceiri, 5 Llwyn Ceirios, Ffordd Bethel, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd fel mae **Mrs Menna Thomas**, Wigoedd, Parc Muriau. Da yw deall bod **Mr Harry Jones**, Bod Hyfryd, Ffordd y Gogledd, wedi symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri ac yno hefyd mae **Mrs Mary Land**, Gorwel Môn, Ffordd Bethel. Treuliodd **Mrs Rhiannon Owen**, Pantle, gyfnod byr yn Ysbyty Wrecsam ond mae hi erbyn hyn yn gwella ar ei haelwyd yn Llanfaglan.

Bedydd

Fore Sul, 4 Mai, bedyddiwyd **Luke Mathew Jarvis**, mab Christian Paul a Ceri Lloyd Jarvis, 2 Cwm Silyn. Gweinyddwyd y sacrament gan y Gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards, yn union ar ôl yr oedfa. Llongyfarchwn y teulu a dymunwn fendith ar eu haelwyd.

Llongyfarchion

Llongyfarchiadau twymgalon i blant ac ieuencid yr eglwys a fu'n cystadlu ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd yn y Bala eleni. Rydym yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. Llongyfarchiadau arbennig i **Heledd Gwyn Lewis**, Llys Cerdd, Cae Gwyn, ar ennill y Fedal Ddrama a hynny gyda chanmoliaeth uchel. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Noson Goffi

Cynhelir y Noson Goffi flynyddol yn Seilo rhwng 6 ac 8 o'r gloch nos Wener, 20 Mehefin. Arbrawf yw ei chynnal yn y capel eleni yn dilyn y siomiant llynedd o gael noson wlyb a gwyntog pan gynhaliwyd hi yng nghartref Dr Huw a Beryl Roberts. Os bydd y tywydd yn braf cynhelir hi allan yn yr awyr agored; yn anad hynny, fe'i chynhelir yn y Theatr. Bydd yno stondinau amrywiol yn cynnwys cacennau a chynnyrch cartref, nwyddau bron yn newydd, planhigion a thombola (pawb yn ennill). Bydd gemau ac ati ar gyfer y plant. Apelir yn garedig am roddion i'r byrddau gwerthu ac edrychir ymlaen at noson lwyddiannus.

Gellir dod â nwyddau i'r Theatr un ai rhwng 6 a 7 o'r gloch nos Iau, 19

Mehefin neu rhwng 10 ac 11 bore dydd Gwener, 20 Mehefin.

Bydd angen clirio ychydig o dyfiant yng nghefn y theatr cyn y Noson Goffi. Tybed a fydd rhai o'r dynion ar gael i gynorthwyo rhwng 6 a 7 o'r gloch nos Lun 16eg Mehefin?

Dymuno'n Dda

Dymunwn yn dda i **Mrs Eiddwen Roberts**, Bryn Hyfryd, Twtil, ar ei thaith i Zambia. Fe'i dewiswyd o blith nifer a ymgeisiodd am y fraint o gael treulio pythefnos fel rhan o gynllun 'World Vision' yn cynorthwyo pobol dlawd y wlad. Edrychwn ymlaen at gael yr hanes ganddi wedi iddi ddychwelyd adra.

Cymorth Cristnogol

Diolchir i bawb a fu'n casglu tuag at Apêl flynyddol Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. **Llwyddodd aelodau Seilo i gasglu'r swm anrhydeddus o £2,450.** Bydd yr arian a gesglir yn gwneud gwahaniaeth i deuluoedd tlawd yn Colombia a rhannau eraill o'r byd a ddioddefodd o ganlyniad i ryfeloedd a therfysgoedd.

Taith y Gymdeithas Lenyddol

Noson o heulwen braf yng nghanol dyddiau o law a Penri Jones yn ein harwain at rai o ryfeddodau Eifionydd a Llŷn. Ymlwybro'r llwybrau yn ôl i'r ddeunawfed ganrif, ac yn wir mor bell yn ôl â'r chweched ganrif a darganfod Ffynnon Cybi lle bu pererinion yn yfed ac ymolchi yn nŵr y ffynnon.

Cerdded draw at Eglwys St Cybi i weld bedd Dewi Wyn o Eifion a fu farw yn

1841; syllu ar lofft yr eglwys lle bu Eben Fardd yn cadw ysgol, "Sain ei gain odlau synnai genhedloedd" ac heb fod ymhell bedd Robert Dafydd a fu'n bregethwr gyda'r Methodistiaid am 61 o flynyddoedd ac a fu farw yn 1834 yn 87 mlwydd oed.

Draw i Gapel Helyg i syllu ar gofeb i'r Parchedig William Ambrose (Emrys), awdur emynau megis "Arglwydd gad im dawel orffwys". Dod i gyfnod ychydig mwy cyfoes gan grwydro i Benyberth i gael gweld y gofeb i losgwyr yr ysgol fomio, sef Saunders Lewis, D.J.Williams a Lewis Valentine.

Draw ymhellach i Lŷn wedyn, heibio Neuadd Mynytho ac englyn enwog R Williams Parry, "Adeiladwyd gan dlodi" a gweithio'n ffordd i un o gapeli neu dŷ cwrdd hynaf Cymru, sef Capel Newydd, Llangian, – hen adeilad ers y 18fed ganrif gyda llawr pridd a hen hen seddau. Adeilad hynod a achubwyd a'i adnewyddu gan y diweddar Gwilym T Jones.

Diweddu'r daith trwy ddychwelyd i Lanbedrog a chael pryd o fwyd hynod flasus yng ngwesty'r 'Ship'. A dyna flwyddyn arall o'r Gymdeithas Lenyddol ar ben, a rydan ni eisoes yn edrych ymlaen at ein cyfarfodydd y tymor nesaf.

Richard Morris Jones

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Mehefin 20fed.

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865

